

Cyflwyniad

Mae'n bwysig gan y Cyngor bod unrhyw dwyll, camymddygiad neu gamwedd yn cael ei adrodd a'i drin yn briodol. Mae ar bob gweithiwr ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw gamarfer fel yr amlinellir yn y Cod Ymddygiad Gweithwyr.

Amcanion y Polisi

Mae'r polisi wedi'i ddatblygu i ddangos ymrwymiad y Cyngor i ddim goddefgarwch a chael gwared ar gamarfer.

Mae'n rhoi fframwaith clir i alluogi gweithwyr i godi pryderon o fewn y Cyngor/Ysgol heb ofni erledigaeth, gwahaniaethu nac anfantais yn hytrach na cheisio datrys y broblem y tu allan i'r Awdurdod.

Cwmpas

Mae'r polisi'n berthnasol i bob gweithiwr, contractwr, cyflenwr, aelod etholedig, ac aelod o staff asiantaeth sy'n gweithio i'r Cyngor ar safle'r Cyngor neu sy'n cyflawni dyletswyddau ar ran y Cyngor.

Gweithwyr mewn Ysgolion

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cymeradwyo'r polisi hwn i Gyrff Llywodraethu unigol ei fabwysiadu. Os caiff ei fabwysiadu gan Gorff Llywodraethu, bydd y polisi'n berthnasol i bob gweithiwr sydd dan reolaeth uniongyrchol y Corff Llywodraethu hwnnw.

Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r isod:

Cod Ymddygiad Gweithwyr

Cod Ymarfer Aelodau

Polisi Cwynion Corfforaethol

Gweithdrefn Gwyno

Cod Disgyblu

Polisi Cyfle Cyfartal

Polisi Bwlio ac Aflonyddu

Deddf Diogelu Data

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Datganiad polisi strategaeth atal twyll a llygredd

Canllawiau rheoli chwythu'r chwiban

Egwyddorion

CHWYTHU'R CHWIBAN

Ystyr chwythu'r chwiban yw mynegi pryder, naill ai yn y gweithle neu yn allanol, am berygl, risg, camarfer neu gamwedd sy'n effeithio ar eraill.

Mae'r Polisi hwn hefyd ar gael yn Saesneg. Os hoffech i unrhyw broses o dan y Polisi hwn gael ei chynnal yn Saesneg, rhowch wybod i'r rheolwr perthnasol a gellir trefnu hyn.

AMLINELLIAD

Mae'r polisi hwn yn ceisio:

1. Sicrhau bod pryderon difrifol yn cael eu codi a'u trin yn briodol
2. Atal camarfer difrifol
3. Hyrwyddo atebolrwydd drwy'r Cyngor / Ysgol
4. Rheoli osgoi argyfwng a beirniadaeth gyhoeddus
5. Cefnogi unigolion i herio arfer gwael heb ofni edliw, erledigaeth neu aflonyddu.

Nid yw'r polisi'n cynnwys:

1. Cwyn gyflogaeth unigol. Dylid cyfeirio hyn at Bolisi Cwynion y Cyngor/yr Ysgol neu bolisiâu eraill fel y Polisi Cyfle Cyfartal neu'r Polisi Bwlio ac Aflonyddu.

Materion Iechyd a Diogelwch Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar bob gweithiwr i adrodd wrth reolwr am unrhyw sefyllfa waith sy'n creu risg neu berygl i Iechyd a Diogelwch gweithwyr y Cyngor, cydweithwyr neu aelodau o'r cyhoedd.

POLISI

BETH SY'N DDATGELIAD CYMWYS?

Defnyddir y term 'datgeliad cymwys' i ddisgrifio gwybodaeth am unrhyw gamweddau y gall gweithiwr neu berson arall ddod ar eu traws. Gall fod yn rhywbeth sydd wedi digwydd, sy'n digwydd ar hyn o bryd neu a allai ddigwydd yn y dyfodol.

Gallai fod mewn perthynas â'r canlynol:

1. Trosedd
2. Torri rhwymedigaethau cyfreithiol

3. Camweinyddiad cyfiawnder (troseddol neu sifil, ddim yn cynnwys gweithdrefnau mewnol y Cyngor)
4. Perygl i Iechyd a Diogelwch unrhyw berson
5. Difrod i'r amgylchedd
6. Cuddio yn fwriadol unrhyw wybodaeth sy'n tueddu i ddangos unrhyw un o'r materion uchod
7. Afreoleidd-dra a phryder ariannol

Gallai enghreifftiau o bryderon difrifol a ddaw o dan y polisi hwn gynnwys:

1. Camweinyddu, fel y'i diffinnir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
2. Torri amod unrhyw bolisi'r Cyngor/Ysgol neu ddiffyg gweithredu neu gydymffurfio ag unrhyw bolisi gan y Cyngor/Ysgol.
3. Peidio â chydymffurfio â safonau proffesiynol priodol.
4. Llygredd neu dwyll.
5. Gweithredu sy'n debygol o achosi perygl corfforol i unrhyw berson, neu o achosi risg o ddifrod sylweddol i eiddo.
6. Peidio â chymryd camau rhesymol i adrodd am – a chywiro – unrhyw sefyllfa sy'n debygol o arwain at gost sylweddol y gellid ei hosgoi neu golli incwm i'r Cyngor/Ysgol neu a fyddai fel arall yn amharu'n ddifrifol ar y Cyngor/Ysgol.
7. Camddefnyddio pŵer, neu ddefnyddio pwerau'r Cyngor/Ysgol at unrhyw ddiben anawdurdodedig neu gudd.
8. Gwahaniaethu annheg yn arfer cyflogaeth y Cyngor/Ysgol neu wrth ddarparu gwasanaethau.
9. Arferion gwaith anniogel, a allai arwain at effaith andwyol ar iechyd a diogelwch neu les chwythwr chwiban, ei gydweithwyr, y cyhoedd neu ddefnyddwyr gwasanaeth, nad ymdriniwyd â nhw'n ddigonol.
10. Cam-drin neu aflonyddu corfforol, rhywiol neu unrhyw fath arall. Gall hyn gynnwys cyflogai, plentyn neu oedolyn bregus.
11. Methu â chywiro neu gymryd camau rhesymol i roi gwybod am fater sy'n debygol o arwain at gost sylweddol y gellid ei hosgoi neu golli incwm i'r Cyngor/Ysgol.
12. Camau y gellid eu hystyried yn gamddefnydd difrifol o amser y Cyngor/Ysgol. Gallai hyn gynnwys cam-drin difrifol sy'n cynnwys defnyddio'r rhyngwrdd, e-bost, systemau clocio, systemau gweithio hyblyg, taflenni amser, cyfarfodydd anawdurdodedig, gwaith anawdurdodedig, defnyddio cerbydau'r cyngor ac ati.

SYLWER: Bwriad y rhestr hon yw dangos y mathau o faterion y gellir eu codi. Nid yw'n gynhwysfawr.

MESURAU DIOGELU

Mae'r Cyngor/Ysgol yn cydnabod y gall y penderfyniad i adrodd am bryder fod yn un anodd ei wneud, yn bennaf oherwydd ofn dial gan y rhai sy'n gyfrifol am y camarfer. Ni ddylai fod gan y rhai sy'n gwneud honiad er budd y cyhoedd unrhyw beth i'w ofni gan mai cyflawni eu dyletswydd i'w cyflogwr, eu gydweithwyr a'r cyhoedd a wnânt. Mae gan weithwyr sy'n gwneud datgeliadau hawl i gael cyngor annibynnol ac mae rhestr o sefydliadau perthnasol a'u manylion cyswllt wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 y polisi hwn.

Ni fydd y Cyngor/Ysgol yn goddef unrhyw niwed a ddioddefir gan chwythwr chwiban, ac os digwydd hyn, gall y camau gweithredu arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn gweithwyr o'r fath sy'n achosi'r niwed hwn.

Gall enghreifftiau o niwed (neu anfantais) gynnwys peidio â dyrchafu, gwrthod hyfforddiant, monitro agosach, anwybyddu, rhwystro mynediad i adnoddau, ail-aseinio neu adleoli heb gais am hynny, israddio, atal dros dro, cosb ddisgyblu, bwllo neu aflonyddu, erledigaeth, diswyddo, peidio â rhoi geirada priodol, neu beidio ag ymchwilio i bryder wedyn.

Os yw gweithiwr sy'n gwneud datgeliad yn credu ei fod yn dioddef anfantais oherwydd ei fod wedi mynegi pryder, dylid rhoi gwybod i Bennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid am hyn.

Ni ddylai fod ofn cosb ar y rhai sy'n mynegi eu pryder er budd y cyhoedd ond nad yw eu honiad yn cael ei gadarnhau gan yr ymchwiliad, oherwydd na chymerir camau yn eu herbyn. Fodd bynnag, os caiff honiadau eu gwneud sydd wedyn yn profi bod iddynt fwriad maleisus, yna caiff y mater ei drin o ddifri a gallai arwain at gamau disgyblu.

MYNEGI DATGELIADAU YN GYFRINACHOL

Er y disgwylir bod sail i ddatgeliad cymwys, ni ddisgwylir y bydd angen i'r cyflogai sy'n codi'r datgeliad profi ei fod yn wir. Cyfrifoldeb y rheolwr/swyddog ymchwilio yw hynny.

Bydd yr holl ddatgeliadau'n cael eu trin yn gyfrinachol a gwneir pob ymdrech i gadw enw'r chwythwr chwiban yn gyfrinachol pan ofynnir am hynny, oni bai bod angen datgelu yn ôl y gyfraith. Dim ond gyda chydysniad y chwythwr chwiban y caiff ei enwi.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i'r person fod yn barod i ddod ymlaen fel 'tyst'. Os yw hyn yn angenrheidiol, gwneir pob ymdrech i gyfyngu ar y cysylltiadau â'r chwythwr chwiban i gynnal lefel cyfrinachedd.

DATGELIADAU DIENW

Mae gweithiwr yn codi pryder yn ddiennw os nad yw'n rhoi ei enw o gwbl. Os digwydd hyn, bydd y Cyngor yn asesu'r wybodaeth ddiennw gystal ag y gall i weld a oes sylwedd i'r pryder ac a ellir mynd i'r afael ag ef. Yn amlwg, os nad oes neb yn gwybod pwy a gyflwynodd y wybodaeth, nid yw'n bosibl tawelu eu meddwl na'u diogelu. Mae'r polisi hwn yn annog unigolion i gysylltu eu henw â'r pryder pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Rhaid cadw at ddarpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data yn ystod y broses, yn enwedig o ran datgelu, defnyddio a phrosesu gwybodaeth bersonol.

GWEITHDREFN

CAM UN:

Mae datgeliadau yn cael eu codi orau yn ysgrifenedig trwy gwblhau'r [Ffurflen Adroddiad Chwythu'r Chwiban](#); fel arall gall y person ddatgelu i'w rheolwr llinell ar unwaith. Os yw'r datgeliad yn ymwneud â'r rheolwr llinell, mae'n briodol codi'r mater gyda Phennaeth y Gwasanaeth/Pennaeth Ysgol.

Os yw gweithwyr yn teimlo na allant siarad â'u rheolwr llinell neu'r Pennaeth Gwasanaeth ynglŷn â'u datgeliad, gallant gysylltu â'r Llinell Gymorth Chwythu Chwiban fewnol ar 01633 210428 (sylwer mai aelod o'r adran Adnoddau Dynol fydd yn ateb galwad ar y rhif hwn). Gall gweithwyr hefyd siarad am eu datgeliad ag aelod o'r Adran Archwilio ar 01633 201693 neu â'u cynrychiolydd Undeb Llafur.

Gall unigolion ddod gyda'u cynrychiolydd Undeb Llafur neu gydweithiwr i unrhyw gyfarfodydd/gyfweliadau.

O fewn 10 diwrnod i ddatgeliad ddod i law, bydd y rheolwr yn ysgrifennu at y person sy'n codi'r mater, gan gydnabod bod y datgeliad wedi dod i law ac yn nodi sut mae'r Cyngor/Ysgol yn bwriadu ymdrin â'r mater ac yn rhoi amcangyfrif o faint o amser y bydd yn ei gymryd i ddod i ganlyniad terfynol. deal with the matter and an estimation of how long it will take to provide a final outcome.

Bydd cymorth a chysylltiad rheolaidd yn parhau a chaiff y cymorth ei adolygu fel sy'n briodol.

Ar ôl i unrhyw ymchwiliad ddod i ben, bydd yr unigolyn yn cael gwybod am ganlyniad yr ymchwiliad a pha gamau sydd wedi'u cymryd/cynnig. Os na fydd camau'n cael eu cymryd, bydd y rheswm dros hyn yn cael ei esbonio. Yn ogystal, gall y materion a godir:

1. Gael eu hatgyfeirio i'r heddlu
2. Cael eu hatgyfeirio i Archwilydd Allanol
3. Ffurio testun ymchwiliad annibynnol.
4. Mae'n bosibl datrys rhai pryderon drwy gytuno ar gamau gweithredu heb fod angen ymchwiliad.

Os gwelir bod y materion a godwyd yn rhan o bolisi amgen, e.e. y polisi disgyblu, bydd yr unigolyn yn cael gwybod bod y mater yn cael ei anfon at y person priodol yn y Cyngor/Ysgol.

Yn achos unrhyw wybodaeth a godir yn ystod ymchwiliad disgyblu, bydd y Swyddog Ymchwilio yn ymchwilio hyn yn unol â Chod Disgyblu'r Cyngor/Ysgol. Os datgelir y wybodaeth ar ôl penderfynu cynnal gwrandawriad disgyblu, a hynny ar ffurf amddiffyniad, bydd y datgeliad perthnasol yn rhan o ystyriaeth y Swyddog Disgyblu/panel Disgyblu.

Os yw'r datgeliad yn ymwneud â mater iechyd a diogelwch, gall y Swyddog Ymchwilio gymryd camau i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles unrhyw berson neu i ddiogelu eiddo'r Cyngor/Ysgol neu unrhyw berson y mae gan y Cyngor/Ysgol ddyletswydd gofal statudol drosto, ac i sicrhau y cymerir camau o'r fath.

Mewn ysgolion, byddai'r Prif Swyddog Addysg a Phennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid yn cynghori Cadeirydd y Llywodraethwyr ar y broses y dylid ei dilyn.

CAM DAU:

Os yw'r unigolyn yn anfodlon ar yr ymateb, y canlyniad neu'r ffordd yr ymdriniwyd â'r mater, dylid codi'r mater gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol/y Pennaeth (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr lle mae'r ymateb wedi'i ddarparu gan y Pennaeth), gan ddilyn y weithdrefn gwyno fel y dull mwyaf priodol.

CAM TRI:

Os yw'r unigolyn yn credu bod angen mynd â'r mater y tu allan i'r Cyngor/Ysgol, dylai sicrhau nad yw'n datgelu gwybodaeth gyfrinachol oni bai bod y datgeliad hwnnw'n freintiedig ac yn berthnasol i'r pryder a godwyd. Dylai unrhyw un sy'n cynnig datgeliad allanol ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol neu gysylltu â'r sefydliad Public Concern at Work. Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am sefydliadau allanol yn rhoi cyngor a chymorth ynghylch chwythu'r chwiban. Yn ogystal, mae deddfwriaeth yn nodi nifer o gyrff y gellir gwneud datgeliadau cymwys (Pryderon) iddynt:

1. Cyllid a Thollau ei Mawrhydi <https://www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs>
2. Awdurdod Gwasanaethau Ariannol <https://www.fca.org.uk/>
3. Swyddfa Masnachu Teg <https://www.gov.uk/government/organisations/office-of-fair-trading>
4. Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch <https://www.hse.gov.uk/>
5. Asiantaeth yr Amgylchedd <https://www.gov.uk/government/organisations/environment-agency>

SEFYLLFAOEDD BRYS

Os yw'r unigolyn yn credu bod yn rhaid ymdrin â'r camarfer ar unwaith naill ai achos ei fod yn ymwneud â mater iechyd a diogelwch neu â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, dylid cysylltu ar unwaith â rheolwr ar y rhestr isod. Dylid egluro'r risg neu'r brys yn ddigon manwl a chywir i sicrhau bod y sawl sy'n derbyn yr adroddiad yn deall beth yw'r niwed neu'r risg a phwy neu beth mae angen ei ddiogelu.

Dylid cwblhau'r datgeliad ysgrifenedig cyn gynted â phosibl ar ôl adroddiad llafar.

Oriau Gwaith Arferol

| | | |
|---|------------------------------------------------|------------------------------|
| 1 | Cysylltwch â'r Rheolwr | Os nad yw'n briodol ewch i 2 |
| 2 | Cysylltwch â'r Uwch Reolwr/Pennaeth | Os nad yw'n briodol ewch i 3 |
| 3 | Cysylltwch â Llinell Gymorth Chwythu'r Chwiban | 01633 851687 |

Cysylltiadau ar gyfer rhoi gwybod am ddatgeliadau arbennig sy'n ymwneud â:

| Datgeliad am | Manylion | Cyswllt |
|----------------------------------------|--------------------------------------------------------------|------------------------------|
| Aelodau | Swyddog Monitro (Pennaeth Adran y Gyfraith a Safonau) | 01633 656656 |
| Llywodraethwyr neu Gyrrff Llywodraethu | Prif Swyddog Addysg | 01633 656656 |
| Plant | Swyddog Cwynion Dynodedig ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | 01633 656656 (oriau swyddfa) |
| Plentyn mewn ysgol | Prif Swyddog Addysg | 01633 656656 |
| Oedolion sy'n Agored i Niwed | Prif Swyddog – Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed | 01633 656656 |

Monitro'r Polisi yn effeithiol

- Cyfrifoldeb y Rheolwr Adnoddau Dynol Corfforaethol fydd adolygu'r polisi hwn yn flynyddol, gan sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol ac arfer gorau.
- Bydd y gwasanaeth Adnoddau Dynol yn gyfrifol am gofnodi ac adrodd ar ddigwyddiadau chwythu'r chwiban a darperir nifer yr achosion yn yr adroddiad blynyddol.
- Adroddir am effeithiolrwydd y polisi i Bwyllgor Craffu'r Cyngor yn flynyddol a nodir camau gwella lle y bo'n briodol.
- Cynhelir archwiliadau o bryd i'w gilydd o effeithiolrwydd trefniadau chwythu'r chwiban, gan gynnwys:
 - a) cofnod o nifer a mathau'r pryderon a chanlyniadau ymchwiliadau
 - b) adborth gan unigolion sydd wedi defnyddio'r trefniadau
 - c) unrhyw gwynion am erledigaeth
 - ch) unrhyw gwynion am fethiannau i gynnal cyfrinachedd
 - d) unrhyw ymgyfreitha perthnasol
 - dd) adolygiad o ymwybyddiaeth, ymddiriedaeth a hyder staff ynglŷn â'r trefniadau

- Bydd yr archwiliadau'n destun adrodd i Bwyllgor Craffu'r Cyngor a bydd y Bwrdd yn adolygu'r cylch gorchwyl a amlinellir ym mhwyntiau a i dd uchod fel y bo'n briodol.

ATODIAD 1: Cysylltiadau allanol ynghylch chwythu'r chwiban

Mae rhagor o wybodaeth am chwythu'r chwiban ar gael ar GOV.UK wefan: www.gov.uk/whistleblowing

ACAS: Ffoniwch 0300 123 1100 am gymorth a chynghor am ddim neu i wirio polisiau ac arferion eich gweithle. Mae Llinell Gymorth ACAS yn rhoi cynghor diduedd am ddim i gyflogwyr, gweithwyr a chynrychiolwyr ar amrywiaeth o berthnasau cyflogaeth, hawliau cyflogaeth, Adnoddau Dynol a materion rheoli. Mae'r llinell gymorth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener (8am-8pm) a dydd Sadwrn (9am-1pm)

Protect (Public Concern at Work gynt), yr Elusen Chwythu'r Chwiban, yw'r awdurdod blaenllaw yn y maes. Ei nod yw diogelu'r gymdeithas trwy annog chwythu'r chwiban yn y gweithle a gellir cysylltu â hi ar ei gwefan a thrwy'i gwefannau cyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter.

www.protect-advice.org.uk

020 3117 2520

<https://www.facebook.com/publicconcernnetwork>

<https://twitter.com/WhistleUK>

Archwilydd Cyffredinol Cymru: gellir cysylltu â hwn am ymddygiad priodol busnesau cyhoeddus; gwerth am arian, twyll a llygredd mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru

Swyddog PIDA

Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 20 320 522

E-bost: whistleblowing@audit.cymru

<https://www.audit.wales/cy>

Comisiynydd Plant Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud â hawliau, lles a buddiannau plant yng Nghymru.

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth

Phoenix Way

Llansamlet
Abertawe SA7 9FS
Ffôn: 01792 765600
E-bost: post@childcomwales.org.uk
<https://www.complantcymru.org.uk/>

Y Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch cydymffurfio â gofyniad deddfwriaeth sy'n ymwneud â data diogelu data a rhyddid gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow, SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk
<https://ico.org.uk/>

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch iechyd neu ddiogelwch unigolion yn y gwaith neu iechyd a diogelwch y cyhoedd sy'n gysylltiedig â gwaith, mewn cysylltiad â'r diwydiannau a'r gweithgareddau gwaith y mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn awdurdod gofodi ar eu cyfer.

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Ffôn: 0300 003 1647
Ffurflen ar-lein: <http://www.hse.gov.uk/contact/raising-your-concern.htm> <https://www.hse.gov.uk/>
<https://www.hse.gov.uk/>

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch toramodau gan aelod neu aelod cyfetholedig o ran cod ymddygiad awdurdod perthnasol yng Nghymru.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
www.ombwdsmon.cymru

Cyngor Gofal Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud â chofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Cyngor Gofal Cymru
Tŷ Porth y De

Chwythu'r Chwiban

Stryd Wood
 Caerdydd, CF10 1EW
 Ffôn: 0300 303 3444
 mailto:gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

| | |
|--------------------------|----------------|
| Lluniwyd gan: | Adnoddau Dynol |
| Dyddiad Llunio: | Ebrill 2011 |
| Adolygwyd gan: | Harriet Kenney |
| Dyddiad Adolygu: | 12/02/2021 |
| Fersiwn Gyfredol: | F4 |

Rheoli Dogfennau

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Nodiadau/Newidiadau |
|---------|----------------------|-----------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------|
| F1 | 08/04/2011 | Adnoddau Dynol | Adolygiad Corfforaethol a Thempled Newydd |
| F1.1 | 22/01/2013 | Adnoddau Dynol | O'r Gwasanaeth i Bobl a Thrawsnewid, cynhwyswyd cyfeiriad at yr ysgolion a'r newid yn y Templed |
| F1.2 | 16/09/2013 | Adnoddau Dynol | Dileu 'ffydd dda' a rhoi 'er lles y cyhoedd' yn ei le. Newid 'pryderon' i 'datgeliadau' |
| F2 | 08/04/2015 | Adnoddau Dynol | Diwygiwyd i gyd-fynd ag arfer gorau |
| F2.1 | 03/10/2017 | Adnoddau Dynol | Ychwanegwyd rheoli fersiwn |
| F2.2 | 01/02/2019 | Adnoddau Dynol | Diweddarwyd ar gyfer Deddf Diogelu Data (2018) |
| F3 | 27/04/2020 | Adnoddau Dynol | Templed polisi newydd a diweddarau dolenni |
| e.e. F1 | 12/12/2021 | Adnoddau Dynol | Wedi diweddarau gwybodaeth am gysylltiadau AD ac allanol |
| e.e. F1 | 14/07/2022 | Adnoddau Dynol | Wedi diweddarau gwasanaeth AD, gwasanaeth PP&T ac adolygu gan y Pwyllgor Safonau. |
| e.e. F1 | Click to enter date. | Cliciwch i roi testun | Cliciwch i roi testun |